# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 26 Chwefror 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
3 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor
5 Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Strategaeth Ddrama Newydd

**C6 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygiad strategaeth ddrama newydd yng Nghymru? (OAQ22625) [W]

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Yn ddiweddar, cyhoeddais fuddsoddiad o £2.7 miliwn dros y tair blynedd nesaf i ddatblygu cwmni theatr iaith Gymraeg newydd, a theatr mewn addysg. Yn ogystal, yr wyf yn gweithio'n agos gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ac eraill i ddatblygu polisi sydd wedi'i gydlynu'n genedlaethol ar gyfer theatr trwy gyfrwng y Saesneg yng Nghymru. Hefyd, yn ddiweddarach heddiw yn y neuadd, byddaf yn lansio cronfa gelfyddydau ieuenctid, 'Cynnal Creadigrwydd Pobl Ifanc', sy'n werth dros £1.7 miliwn y flwyddyn, sy'n cynnwys cymorth i Theatr ar gyfer Pobl Ifanc, Agor Drysau a Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru.

### Prifddinas Diwylliant Ewrop 2008

**C7 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y datblygiadau diweddar yn ymgais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008? (OAQ22639)

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn falch bod Caerdydd ar y rhestr fer o ddinasoedd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop. Golyga hyn fod Caerdydd eisoes wedi'i dynodi fel canolfan diwylliant. Y mae'r llwyddiant hwn yn bosibl oherwydd cefnogaeth ariannol y Cynulliad, o bron i £1.4 miliwn. Mae Caerdydd 2008 bellach yn gweithio i ddatblygu'i chais a sicrhau'r cyfle gorau o ennill y gystadleuaeth.

### Hybu Lles a Ffyniant drwy Chwaraeon

**C8 Brian Gibbons:** Ym mha ffordd y gall chwaraeon hybu lles a ffyniant yng Nghymru? (OAQ22651)

**Jenny Randerson:** Mae gan chwaraeon rôl bwysig i'w chwarae. Cytunais flwyddyn diwethaf, gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasaethau Cymdeithasol, i gynllun ffordd o fyw iach a bywiog sydd wedi'i anelu at annog pobl i fyw eu bywydau bob dydd yn fwy bywiog. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gweithio tuag at ei strategaeth chwaraeon, gweithgaredd corfforol a ffitrwydd gyntaf a fydd yn ymdrin â hyn yn fwy manwl.

### Cyfleusterau Adloniant a Hamdden

**C9 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod cyfleusterau adloniant a hamdden o safon uchel ar gael ledled Cymru? (OAQ22650)

**Jenny Randerson:** Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod yr angen i ddarparu ystod amrywiol o gyfleusterau o safon i annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon, gweithgaredd corfforol a ffitrwydd yng Nghymru. Gan weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, bwriadwn barhau i wella’r seilwaith chwaraeon, hamdden ac adlodiant ledled Cymru.

**Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru**

**C10 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod y llythyr sicrhau at Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, ynghylch amgueddfa’r glannau yn Abertawe, wedi’i gwblhau cyn iddi awdurdodi’r trafodiad ar 19 Rhagfyr 2002? (OAQ22646)

**Jenny Randerson:** Cyflwynwyd llythyr i mi ei lofnodi yn awdurdodi Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru i ddod i gytundeb gyda Chronfa Treftadaeth y Loteri i ad-dalu ei grant petai Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe yn cau, er mor annhebyg yw hynny, ar 19 Rhagfyr 2002. Dyma’r diwrnod ar ôl i’r cyfnod 10 diwrnod gwaith ddod i ben, a benodwyd yn Rheol Sefydlog Rhif 19.13, y gall o leiaf 10 Aelod o’r Cynulliad gyflwyno rhybudd sy’n gofyn i Weinidog geisio cymeradwyaeth y Cynulliad am drafodiad hysbysadwy, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 19.14.

Llofnodais y llythyr a threfnais ei anfon ar 19 Rhagfyr.

**Rasio Colomennod**

**C11 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cydnabod rasio colomennod fel math o chwaraeon? (OAQ22633)

**Jenny Randerson:** Cydymdeimlaf â sefyllfa’r frawdoliaeth rasio colomennod, ond ni allaf ymyrryd yn y pwnc hwn. Cefnogaf yn llwyr y system o gydnabod ffurfiol y mae’r pedwar cyngor chwaraeon ledled y DU wedi’u datblygu, sydd wedi’i chynllunio i sicrhau y caiff arian cyhoeddus ei ddosbarthu’n gywir, effeithiol ac effeithlon ar gyfer chwaraeon.

**Cost y Pwll Nofio Cenedlaethol**

**C12 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael â Dinas a Sir Abertawe ynghylch cost y pwll nofio 50 metr cenedlaethol? (OAQ22627)

**Jenny Randerson:** Nid wyf wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda Dinas a Sir Abertawe ynghylch cost y pwll nofio cenedlaethol. Fodd bynnaf, gofynnais i Gyngor Chwaraeon Cymru, partner arian loteri allweddol yn y prosiect hwn, i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i mi ar y mater hwn.

*Tynnwyd cwestiwn 13 (OAQ22630) yn ôl.*

**Mudiad Ysgolion Meithrin (Denu a Chynnal Staff)**

**C14 Owen John Thomas:** Faint o arian cyllideb newydd Mudiad Ysgolion Meithrin sydd ar gyfer y pwrpas arbennig o ddenu a chynnal penaethiaid a staff eraill i’r cylchoedd meithrin? (OAQ22643) [W]

**Jenny Randerson:** Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi dyrannu £1 miliwn i Fudiad Ysgolion Meithrin ar gyfer 2003-04, a chaiff £820,000 o’r arian hwnnw ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau cymorth uniongyrchol ar gyfer y cylchoedd; caiff £100,000 ei ddyrannu i gynorthwyo’r grwpiau gyda’r gwariant ychwanegol sy’n angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a chaiff £80,000 ei ddyrannu ar gyfer prosiect y swyddogion maes.

Bydd y gwariant hwn yn galluogi’r mudiad i ddarparu cymorth canolog ychwanegol i’r grwpiau hyn, sy’n bodoli fel cyrff annibynnol. Mater i’r grwpiau unigol yw delio â recriwtio a chadw staff.

### Proffil Chwaraeon i Ferched

**C15 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch proffil chwaraeon i ferched yng Nghymru? (OAQ22644)

**Jenny Randerson:** Mae llwyddiant menywod fel Tanni Grey-Thompson, Leanda Cave, Becky Morgan, Michaela Breeze, Nicole Cooke, a'r Rhondda Rebels ym myd chwaraeon yn hysbys. Ein bwriad, drwy Gyngor Chwaraeon Cymru, yw haneru'r bwlch rhwng cyfranogiad dynion a menywod mewn chwaraeon erbyn y flwyddyn 2005.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

### Pysgota am Gocos yn Aber Afon Dyfrdwy (Amserlen)

**C8 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog nodi ei amserlen ar gyfer bwrw ati i lunio Gorchymyn rheoliadol, ar y cyd ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, a fyddai'n caniatáu i Asiantaeth yr Amgylchedd reoli pysgota am gocos yn aber afon Dyfrdwy, drwy gyfrwng trwyddedau? (OAQ22697)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor (Michael German):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i'ch OAQ22698 yn gynharach heddiw.

### Hyrwyddo Cynnyrch o Gymru Dramor

**C9 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y mesurau sy'n bodoli i hyrwyddo cynnyrch o Gymru dramor? (OAQ22677)

**Michael German:** Y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Gyfarwyddiaeth Fwyd Awdurdod Datblygu Cymru a'r Bartneriaeth Fwyd-Amaeth, yn sicrhau y gwneir gwaith parhaus i helpu hyrwyddo a gwerthu cynnyrch amaethyddol Cymru gartref a thramor. Mae Cyfarwyddiaeth Fwyd y WDA yn cynnig ystod eang o wasanaethau cynorthwyol i gefnogi cwmnïau bwyd Cymru wrth iddynt geisio cyfleoedd rhyngwladol.

### Prosesu Taliadau Amaethyddol

**C10 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad cynnydd parthed prosesu taliadau amaethyddol? (OAQ22693) [W]

**Michael German:** Gwnaf. Ers 18 Tachwedd 2002, gwnaed tua £90 miliwn o gymorthdaliadau'r polisi amaethyddol cyffredin i ffermwyr yng Nghymru. Mae 97 y cant o geisiadau'r premiwm blynyddol defaid, 73 y cant o geisiadau atodiad ardal lai ffafriol y premiwm defaid, 77 y cant o geisiadau tir âr a 46 y cant o geisiadau rhagdaliad y premiwm arbennig eidion wedi eu talu dros y misoedd diwethaf. Yr wyf yn rhagweld y telir rhagdaliadau buchod sugno fis nesaf.

Y mae'r holl daliadau grantiau gwella ffermydd a grantiau menter ffermydd a oedd yn weddill wedi eu gwneud, sef cyfanswm o £1.4 miliwn. Mae holl daliadau cymwys coetiroedd ffermydd a oedd yn weddill wedi eu gwneud, sef cyfanswm o tua £412,000.

### Clustnodi Cwotâu Llaeth yng Nghymru

**C11 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y posibilrwydd o glustnodi cwotâu llaeth yng Nghymru? (OAQ22688) [W]

**Michael German:** Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb ysgrifenedig WAQ22519 a ddarperais ar 13 Chwefror. Nid oes unrhyw beth arall i'w ychwanegu ar hyn o bryd.

### Dyfodol Amaeth yng Nghymru

**C12 Brian Gibbons:** Pa ymgynghori sydd ar droed gyda'r undebau sy'n ymwneud â'r sector ynghylch dyfodol amaeth yng Nghymru? (OAQ22695)

**Michael German:** Y mae fy adran yn ymgynghori'n rheolaidd ar faterion yn ymwneud ag amaethyddiaeth yng Nghymru gyda'r sefydliadau ffermio ac amgylcheddol sydd â buddiant yn y pwnc. Ni chynhwysir undebau llafur yn awtomatig ar restr y sawl yr ymgynghorir â hwy, ond dim ond eisiau gofyn i gael eu hychwanegu at y rhestr sydd rhaid i unrhyw sefydliad sy'n dymuno cael ei gynnwys yn rheolaidd.

### Cyfraddau Taliadau Tir Mynydd

**C13 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfraddau taliadau Tir Mynydd? (OAQ22687) [W]

**Michael German:** Mae cyfraddau taliadau Tir Mynydd wedi eu nodi yn y cynllun datblygu gwledig i Gymru a gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd fis Hydref 2000.

Y cyfraddau arwynebedd sylfaenol yw £23 yr hectar yn yr arwynebedd anfanteisiol, a £35 yr hectar yn yr arwynebedd anfanteisiol difrifol. Ar gyfer 2003, bydd 10 y cant o gyfanswm y gyllideb ar gael ar gyfer taliadau chwyddo amgylcheddol elfen 2; cyn hynny, 5 y cant oedd ar gael.

Yr wyf eisoes wedi cyhoeddi y cynhelir adolygiad o gynllun Tir Mynydd yn ddiweddarach eleni gyda'r bwriad o gyflwyno'r newidiadau ar gyfer 2005.

### Disodli'r Rheol 20 Diwrnod gyda'r Rheol Chwech Diwrnod

**C14 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffaith y disodlwyd y rheol 20 diwrnod yn ddiweddar gan y rheol chwech diwrnod? (OAQ22682)

**Michael German:** Trefnwyd disodli'r rheol atal symudiadau 20 diwrnod gyda'r rheol atal symudiadau fferm gyfan chwe diwrnod ar 4 Mawrth o dan y drefn symud anifeiliaid ar gyfer y gwanwyn. Croesawyd y trefniadau hyn gan y diwydiant. Bydd ymgynghoriadau parhaus gyda'r diwydiant da byw gyda'r bwriad o gytuno ar becyn o fesurau i wella gwyliadwriaeth a bioddiogelwch.

### Dyfodol Marchnadoedd Da Byw

**C15 David Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau dyfodol marchnadoedd da byw? (OAQ22694)

**Michael German:** Bu Cyfarwyddiaeth Fwyd y WDA, drwy'r Bartneriaeth Fwyd-Amaeth a thrwy gydweithio â phartneriaid eraill, yn gyfrifol am ddatblygu nifer o fentrau a fydd yn helpu marchnadoedd da byw i ddatblygu sut y maent yn gweithredu. Mater i Hybu Cig Cymru fydd unrhyw gynlluniau strategol er mwyn datblygu'r marchnadoedd da byw i'r dyfodol.

# Cwestiynau i'r Trefnydd

## Siarad Ieithoedd heblaw'r Saesneg

**C9 Janet Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i amddiffyn hawl pobl i siarad ieithoedd heblaw'r Saesneg? (OAQ22660)

**Y Trefnydd (Carwyn Jones):** Mae'n ofynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Mae hefyd wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â'i rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, sy'n ymgorffori dileu camwahaniaethu a hybu cyfle cyfartal a chysylltiadau hiliol da fel ei gilydd, ymhob awdurdod lleol yng Nghymru.

## Trefniadaeth a Gweithgareddau'r Cynulliad

**C10 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar natur agored a hygyrch trefniadaeth a gweithgareddau'r Cynulliad? (OAQ22667)

**Carwyn Jones:** Bu inni ddangos ein hymrwymiad i lywodraeth agored drwy, o blith mentrau eraill, God Ymarfer y Cynulliad ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, sy'n mynd ymhellach na chod cyfatebol San Steffan; ein hymagwedd newydd o ran rhyddhau'r ffeithiau a'r dadansoddi y tu ôl i benderfyniadau Gweinidogion; a lansiad cynllun cyhoeddiadau'r Cynulliad. Y llynedd hefyd, bu inni gyflwyno canllawiau newydd i swyddogion ar sut i cynhyrchu dogfennau sy'n rhwydd eu darllen ar gyfer y cyhoedd.

## Cyhoeddi Lwfansau Aelodau

**C11 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyhoeddi manylion lwfansau'r Aelodau? (OAQ22665)

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i'ch cwestiwn 5 (OAQ22664) heddiw.

## Pobl sydd wedi Newid eu Henwau (Budd-daliadau)

**C12 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddweud pa systemau sy'n bodoli i sicrhau bod gan bobl sydd wedi newid eu henwau drwy weithred yr un hawl i dderbyn budd-daliadau? (OAQ22658)

**Carwyn Jones:** Ni ddatgonolwyd materion yn ymwneud â'r system fudd-daliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; fe'u gweinyddir gan Ganolfannau Byd Gwaith. Os ysgrifennwch ataf, byddwn yn falch o ddarparu manylion cyswllt perthnasol Canolfannau Byd Gwaith yng Nghymru.

## Hyrwyddo Cyfle Cyfartal

**C13 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hyrwyddo cyfle cyfartal yng Nghymru? (OAQ22672)

**Carwyn Jones:** Yr ydym yn cynnal cyfres o fentrau yng Nghymru ar hyn o bryd, ar draws yr ystod lawn o elfennau cyfartaledd. Cynhwysa'r mentrau hyn: seminarau ymgynghori cyhoeddus ar gorff cyfartaledd unigol; cyfarfodydd bord gron sector cyhoeddus Cymru ar gyfartaledd; ymgyrch cyflog cyfartal; mentrau allgyrch i wella ein gwaith gyda grwpiau o dan anfantais a chymunedau; Cyngor Rhyng-grefyddol Cymru; seminarau camwahaniaethu ar sail anabledd a gwaith pellach, gan gynnwys ymgynghori cyhoeddus ar gynllun cydraddoldeb hiliol y Cynulliad.

## Ymgyrch dros Gyflog Cyfartal

**C14 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt yr ymgyrch dros gyflog cyfartal yng Nghymru? (OAQ22671)

**Carwyn Jones:** Bu’r Cynulliad, ar y cyd â’r Comisiwn Cyfle Cyfartal a TUC Cymru, yn ymgymryd ag ymgyrch Cau’r Bwlch Cyflog ar hyd y flwyddyn, a gychwynnodd ym mis Mawrth 2002 ac a ddaw i ben ym mis Mawrth 2003. Gwnaf ddatganiad ar hynt diweddaraf ymgyrch Cau’r Bwlch Cyflog ar 18 Mawrth 2003.

## Pobl heb Dystysgrifau Geni (Hawliau Dynol)

**C15 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddweud pa systemau sy’n bodoli i sicrhau nad yw’r system fudd-daliadau yn amharu ar hawliau dynol pobl sydd heb dystysgrifau geni? (OAQ22659)

**Carwyn Jones:** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i’ch cwestiwn 12 (OAQ22658).